**CYNGOR TREF CAERFYRDDIN**
**PWYLLGOR DIBENION CYFFREDINOL**
**A GYNHALIWYD AR 12 GORFFENNAF 2022 AM 7.30YH**

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Siambr y Cyngor, Neuadd Ddinesig San Pedr ac yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan alluogi cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhelir o 1 Mai 2021 trwy bresenoldeb o bell.

Y Cyng. Angharad Jones Leefe, fu'n cadeirio'r cyfarfod.

**PRESENNOL**: Cynghorwyr: Dai Evans, Peter Hughes Griffiths, Angharad Jones Leefe, Arwel Lloyd (cyswllt fideo), Miriam Moules (cyswllt fideo), Russell Sparks, Wyn Thomas, a Barry Williams.

Mr Alun Harries – Clerc i'r Cyngor Tref
Mrs Emma Smith – Dirprwy Clerc y Dref a Rheolwr Cyllid

**96. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Marc Ingram.

**97. Datgan buddiannau.**

(i) Cyng. Barry Williams ar gyfer eitem 104 isod, fel aelod o'r Lleng Brydeinig Frenhinol.

**98. Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol.**

Dim materion yn codi.

**Adroddiad Clerc y Dref**

**99. Ceisiadau Cynllunio**

**(i) PL/04180 -** Estyniad unllawr ochr a phorth blaen - 48 Rhodfa Crispin, Caerfyrddin, SA31 3EH - **DIM GWRTHWYNEBIAD**

**(ii) PL/04168 –** adnewyddu garej ar wahân - 9 Heol y Delyn, Caerfyrddin, SA31 1EE - **DIM GWRTHWYNEBIAD**

**100. Materion Priffyrdd**

Dim

**101. Materion Trwyddedu**

DRAFT

Dim

**102. Adroddiad Blynyddol Cyngor Tref Caerfyrddin**

Ystyriodd a thrafododd yr Aelodau gynnwys yr adroddiad blynyddol. Canmolodd y Cyng. Peter Hughes Griffiths yr holl waith caled a wnaed yn ystod y flwyddyn a chynigiodd y dylid cymeradwyo'r adroddiad i'w argymell i'r Cyngor. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Russell Sparks, roedd pawb o blaid ac **ARGYMHELLWYD** yr adroddiad i'r Cyngor.

**103. 'Diolch o Galon' yng Ngŵyl Gerdd Haf Parc Caerfyrddin a Thref Caerfyrddin 27 Awst 2022**

Mae digwyddiad 'Diolch o Galon' y Maer i gydnabod cyfraniad pobl leol yn ystod y pandemig i'w gynnal ar ddydd Sadwrn gŵyl banc yr haf ym Mharc Caerfyrddin ac mae'r cynllunio ar gyfer y digwyddiad yn mynd rhagddo. Ymysg y diddanwyr bydd y 'Welsh Whisperer' a bydd hyn yn nodi diwedd rhaglen digwyddiadau'r haf ym Mharc Caerfyrddin. Byddai hyn yn cael ei ddilyn gan ŵyl gerddoriaeth ehangach o amgylch y dref a drefnwyd gan Ford Gron Caerfyrddin.

Mae digwyddiad ymgynghori cyhoeddus sylweddol – 'Llais Caerfyrddin' – hefyd yn cael ei gynnal yn ystod mis Awst dan nawdd menter LocalMotion. Bydd un rhan o'r ymgynghoriad hwn yn digwydd yn y parc wythnos ynghynt ar yr 20fed o Awst.

**NODODD** yr Aelodau y diweddariad.

**104. Trefniadau Sul y Cofio – Dydd Sul 13eg Tachwedd 2022**

Cafwyd trafodaeth am y sefyllfa bresennol gyda Changen y Lleng Brydeinig Frenhinol yng Nghaerfyrddin sydd wedi diddymu eleni. Ystyriwyd hefyd ymarferoldeb a chyfrifoldeb am wahanol faterion. Tra bod mwy o faterion i'w trafod a phenderfynu arnynt, cynigiodd y Cyng. Russell Sparks y dylai cyfarfod gyda phartïon â diddordeb gael ei drefnu gan y Cyngor Tref yn y lle cyntaf, eiliwyd y cynnig hwn gan y Cyng. Miriam Moules, roedd pawb o blaid ac **ARGYMHELLWYD** y ffordd ymlaen i'r Cyngor. Gwirfoddolodd y Cyng Williams a'r Cyng Sparks i gynorthwyo gyda'r trefniadau.

**105. Cynnau Goleuadau Nadolig a Diwrnod Parêd y Ceirw**

Ar gynnig y Cyng. Russell Sparks, eiliwyd gan y Cyng. Peter Hughes Griffiths, gyda phawb o blaid, **ARGYMHELLWYD** Dydd Sadwrn 26 Tachwedd i'r Cyngor ar gyfer cynnau'r golau Nadolig a dathliadau yn y dref. Mwy o ystyriaeth i'r manylion i ddilyn.

**106. Gwerthusiad Ardal Gadwraeth a Chynlluniau Rheoli – Tref Caerfyrddin**

DRAFT

Roedd gohebiaeth wedi dod i law yn ymwneud â gweminar/cyfarfod a gynhelir ddydd Iau 7 Gorffennaf i drafod yr uchod. Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i gynnwys yr ohebiaeth a **NODWYD.**

**107. Fforwm Adfywio Tref Caerfyrddin 7fed Gorffennaf 2022**

Cafwyd diweddariad ar y cyfarfod gan y rhai oedd yn bresennol a **NODWYD** gan yr aelodau. Gwnaed cais i sefydlu trefniadau adrodd o'r cyfarfodydd hyn.

**108. Gwybodaeth ar gyfer 'Bwrdd y Clerc' Cyngor Tref**

**ARGYMHELLWYD** cynnwys bwrdd y Clerc fel y'i cyflwynwyd i'r Cyngor i'w arddangos yn swyddfa Clerc y Dref.

**109. Protocol Baner Cyngor Tref Caerfyrddin**

Cynigiodd y Cyng. Russell Sparks y dylid mabwysiadu'r protocol drafft, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Miriam Moules gyda phawb o blaid, **ARGYMHELLWYD** y protocol i'r Cyngor.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.23 y.h.**

DRAFT